Idiomau

1. **Mae'n bwysig defnyddio idiomau wrth siarad ac ysgrifennu: e.e.**

cael llond bol

rhedeg nerth ein traed

yn llygad ei le

cadw'r ddysgl yn wastad

gwneud ei orau glas

crynu fel deilen



2. IDIOMAU ANGHYWIR:

Anghywir X	Cywir √
Mae'r pris wedi mynd i fyny	Pris wedi codi
Gwneud fy meddwl i fyny	Penderfynu
Troi fyny i wersi	Mynd i wersi
Edrych i fyny	Chwilio
Dwyn i fyny	Magu
Tân wedi mynd allan	Tân wedi diffodd
Beiro wedi rhedeg allan	Beiro wedi sychu / hesbu
Gadael i lawr	Siomi rhywun
Troi cynnig lawr	Gwrthod cynnig
Dwi gyda fy llyfr	Mae fy llyfr gen i
Rhoi dy gôt di ar	Gwisgo dy gôt
Edrych i mewn i'r mater	Ymchwilio i'r mater
Ar ben fy hun	Ar fy mhen fy hun
Ar ben ei hun	Ar ei ben ei hun / ar ei phen ei hun
Ar ben dy hun	Ar dy ben dy hun
Y gloch wedi mynd	Y gloch wedi canu
Golchi lan	Golchi llestri